9 Llywodraethu llwyddiannus

92. Mae'r Asiantaeth Cynnal Plant bresennol yn gweithredu fel un o asiantaethau gweithredol yr Adran Gwaith a Phensiynau. Er mai'r Asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflwyno'r drefn cynnal plant, yr Adran sy'n berchen ar y polisi cyffredinol ac yn gyfrifol amdano.

93. Efallai y byddai'n werth newid y trefniadau sefydliadol. Un opsiwn fyddai sefydlu'r corff newydd fel corff cyhoeddus anadrannol. Disgrifir corff cyhoeddus anadrannol fel 'corff sy'n chwarae rhan ym mhrosesau llywodraeth genedlaethol ond nad yw'n un o adrannau'r llywodraeth, neu'n rhan o adran o'r fath, ac sy'n gweithredu yn unol â hynny i raddau mwy neu lai hyd braich o weinidogion'.[58]

94. Gallai newid statws y sefydliad newydd gynnig sawl mantais bosibl, gan gynnwys rhoi mwy o gyfrifoldeb ac annibyniaeth i'r sefydliad o'r canol. Er y byddai gweinidogion yn parhau'n gyfrifol am y sefydliad, ni fyddent yn rhan o'i weithrediadau o ddydd i ddydd. Yn aml, caiff corff cyhoeddus anadrannol eu defnyddio mewn sefyllfaoedd lle y mae angen gwneud penderfyniadau anodd am achosion penodol, y mae angen eu gwahanu'n amlwg o weinidogion. Ymhlith yr enghreifftiau mae Asiantaeth yr Amgylchedd a Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu. Mae dadleuon tebyg yn berthnasol i'r drefn cynnal plant, lle y mae'r wladwriaeth yn cyflawni rhyw fath o swyddogaeth led-farnwrol, wrth benderfynu ar gais rhwng dau riant.

95. Gallai statws corff cyhoeddus anadrannol hefyd alluogi'r sefydliad gweinyddol i gymryd mwy o berchnogaeth a chyfrifoldeb dros bolisïau nag asiantaeth weithredol. Yn achos y drefn cynnal plant, gallai fod o fudd cyfuno polisi a dulliau cyflwyno o fewn yr un corff, er mwyn sicrhau'r synergedd gorau posibl rhwng y ddau. Byddai hyn yn gydnaws â'r argymhelliad i'r sefydliad weithredu fel comisiynydd gwasanaethau.

96. Mae risgiau yn gysylltiedig â'r broses o greu sefydliad newydd a newid ei drefniadau llywodraethedd. Yn amlwg, byddai gan unrhyw newid oblygiadau sylweddol i reolaeth a staff presennol yr Asiantaeth Cynnal Plant, sydd wedi gweithio'n galed i gyflawni nodau'r Asiantaeth, yn aml o dan amgylchiadau anodd iawn. Gallai newidiadau hefyd effeithio ar gydberthynas y sefydliad gweinyddol â'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan greu perygl o ddyblygu swyddogaethau polisi, ac â'i gwsmeriaid, os tybir ei fod yn annibynnol ar y llywodraeth.

97. Mewn egwyddor, ymddengys y gallai fod yn fuddiol newid y trefniadau llywodraethedd. Fodd bynnag, mae angen gwaith pellach i archwilio oblygiadau newid o'r fath yn fanylach ac i ategu penderfyniad terfynol.

Argymhelliad: Mae angen gwaith pellach i asesu manteision ac anfanteision cymharol sefydlu'r sefydliad newydd fel corff cyhoeddus anadrannol neu ei gadw fel asiantaeth weithredol.